

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Morfudd Williams (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn codwm yn ystod yr wythnos. Yno hefyd yn parhau i gael gofal y mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog). Mae Beryl Jones (Nantglyn) yn parhau yn Ysbyty Rhuthun, fel ag y mae Bronwen Williams (Cefn Berain), Peter Jones (Groes), a Gwyn H. Davies (Hiraethog) yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw amdanynt, gan hyderu y bydd pob un ohonynt yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Cofiw'n hefyd y rhai sydd heb fod cystal eu hiechyd a'r rhai sy'n dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Mae eraill yn mynd trwy gyfnod digon anodd yn eu bywydau oherwydd amrywiol amgylchiadau teuluol. Parhawn i gofio amdanynt oll a chyflwynwn hwy i ofal Duw.

Beibl.net

Newyddion anhygoel oedd clywed fod y fersiwn printiedig o beibl.net (3,000 o gopiau) wedi gwerthu allan a hynny cyn i'r lansio ddigwydd!! Ond, os ydych wedi archebu copi trwy'r Ofalaeth, gallaf eich sicrhau bod mwy o gopiau yn cael eu hargraffu ac y byddant wedi dod i law yn ystod yr wythnosau nesaf hyn, yn sicr cyn y Nadolig. Rwyf eisoes wedi derbyn y beiblaau lliw i blant a archebwyd, felly, os ydych chi'n dymuno cael y rheiny cyn i'r lleill ddod i law, plis gadewch i mi wybod, neu gallwch eu casglu yn Oedfa'r Fro os byddwch yn dymuno. Byddaf yn ddiolchgar o dderbyn yr arian (£10 yr un) wrth i chi eu casglu, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN:** Noson yng nghwmni Gwion a Sarah Dafydd nos Lun, Tachwedd 16eg yn y Ffestri am 7.30.
- **CYFARFOD ARBENNIG O'R HENADURIAETH** nos Fawrth, Tachwedd 24ain, yn Nhrefnant am 6.00 i drafod y dogfennau a ddaeth i law. Mae'r cyfarfod yn agored i flaenoriaid a swyddogion holl eglwysi'r Henaduriaeth.
- **"GWISGO MERCH AR DRAWS Y BYD"** Un o'r syniadau a gafwyd trwy gyflwyniad Sarah Morris (Rhaglen Dorcas) yng Nghyfarfod Chwiorydd yr Henaduriaeth yn Henllan yn ddiweddar oedd y byddai darparu dilledyn newydd 'yn rhodd heb ei ail' i blant mewn angen ar draws y byd. Bwriedir cael noson yn Ffestri Llansannan nos Wener, Tachwedd 27ain i ddechrau ar y prosiect o bwytho ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi (a pheiriant gwnïo os oes ganddoch un) ac fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad. Croeso i bawb o bob oed!



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Tachwedd 2015

Darlleniad y Dydd

Salm 19: 7-11

(BCND tud.499 / BCN: tud.456)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw a diolch i Dduw am ei ras tuag atom yn Iesu Grist, Goleuni'r Byd. Nos Sul diwetha roedd nifer dda o bobl wedi dod at ei gilydd i Goleg y Bala i ddatlu cyhoeddi Beibl.net mewn print am y tro cyntaf, a nos Fercher daeth nifer dda eto i wrando ar Rhodri yn agor ystyr y gair 'gras' yn y Beibl. Mae 'na gysylltiad! A'r gair 'gras' ydi'r cysylltiad.

Dydi'r gair 'gras' ddim yn ymddangos yn Beibl.net gan i Arfon Jones benderfynu yn fuan iawn y byddai'n defnyddio 'haelioni Duw' yn hytrach na'r gair 'gras' Duw. Wrth i Rhodri arwain nos Fercher fe gawsom ni gyfle i restru'r hyn y mae 'gras' yn ei olygu i ni ac fe ddaeth y syniad o drugaredd a haelioni a chariad Duw i frig y rhestr. Rhywbeth sy'n cael ei roi i ni heb i ni ei haeddu ydi gras. 'Rhodd Duw ydyw' meddai'r Beibl Cymraeg Newydd neu 'anrheg Duw ydi e' meddai Beibl.net. Sut bynnag 'da ni'n deall gras, un peth sydd yn sicr iawn – rhodd, neu anrheg neu bresant Duw ydi o i ni.

Y darlun trawiadol a ddefnyddiodd Rhodri oedd stori fawr cwpan y byd rygbi pryd y rheddodd y llanc 14 oed, Charlie Line, allan o dorf cefnogwyr y Crysau Duon ar y cae wrth i'r tîm ddathlu eu buddugoliaeth. Fe'i lloriwyd yn ddi-drugaredd gan un o'r 'bownsars' ond fe aeth Sonny Bill Williams, arwr canol cae y tîm ato a'i godi ac, er mawr syndod i bawb, fe roddodd ei fedal newydd i'r llanc yn rhodd yn y fan a'r lle! Dyma enghraifft dda o haelioni neu ras – rhodd yn cael ei rhoi heb haeddiant.

Cafwyd trafodaeth fywiog wedyn, dan arweiniad Rhodri ar y cwestiynau mawr sy'n codi wrth i ni ystyried rhoddion Duw. Dyma oedd cwestiwn y gynulleidfa: 'Ydi pawb yn derbyn bendithion gras Duw yntau ai i rai yn unig y mae Duw yn rhoi y rhodd arbennig yma?' Dyma gwestiwn dwys nad oes modd i ni ei ddatrys. Ond mae'r Beibl yn rhoi arweiniad clir i ni dim ond i ni fynd at y Beibl mewn gostyngieddrwydd mawr fel 'clai' yn nwylo'n lluniwr. (Rhufeiniaid 9: 20)

Yng Nghrist mae'r datguddiad llawn o Dduw i ni fel dynoliaeth. Wrth edrych ar Iesu, a'r hyn a wnaeth trosom ac yn ein lle, beth a ddysgw'n am ras Duw? Haelioni dibendraw a welwn ni gobeithio, gorlif o ras, anrheg o galon rasol Duw heb i'r un ohonom ei haeddu! Anrheg ydi o, rhodd o goron y bywyd, cael Crist yn frawd a ninnau gydag Ef yn cael etifeddiaeth na fydd byth yn diflannu, yn difetha nac yn darfod! (1 Pedr 1: 4) Diwrnod da i ni ganmol gras Duw ydi heddiw a bydded i Dduw oleuo ei Air i ni ymhellach eto heddiw.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 1:18-21 (BCND tud.1 / BCN: tud.1)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Iau – 12^{fed}
- **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd** yng Nghapel Bethel, Prestatyn o 10.00 – 3.00.
 - **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 13^{eg}
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Gwener – Sul
13^{eg}– 15^{fed}
- **Penwythnos Blaenoriaid** yng Ngholeg Trefeca. Y siaradwyr fydd: Y Parch. Meirion Morris – “O'r Seiadau, i'r Eglwysi – i'r Seiadau”; Y Parch. Janice Jones – “Crist a'r Gymuned”; a Moses Tutesigensi – “Rôl Blaenoriaid o fewn yr Eglwys...a thu allan”. Croeso i flaenoriaid hen a newydd. Cost y penwythnos fydd £89. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / colegtrefeca@ebcpcw.org.uk.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed} Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Dylan a Rhian Williams yn cyflwyno Elen Wyn i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.